

b) Planning & Amenities Committee – 1st February 2016

RESOLVED : that the Minutes of this Meeting be confirmed as a correct record.

c) Finance and General Purposes Committee – 1st February 2016

RESOLVED : that the Minutes of this Meeting be confirmed as a correct record.

d) Special Finance and General Purposes Committee – 8th February 2016

RESOLVED : that the Minutes of this Meeting be confirmed as a correct record.

e) Planning & Amenities Committee – 22nd February 2016

RESOLVED: that the Minutes of this Meeting be confirmed as a correct record.

210/15 ELECTION OF MAYOR ELECT

The Town Clerk invited nominations for the election of the Mayor Elect for the 2016/2017 Municipal Year.

Councillor Dewi Williams was proposed and seconded.

There were no other names proposed.

RESOLVED: unanimously that Councillor Dewi Williams, proposed by Councillor D Madge and seconded by Councillor J Wynn Jones, be elected Mayor Elect for the 2016/2017 Municipal Year.

211/15 ELECTION OF DEPUTY MAYOR ELECT

The Deputy Mayor invited nominations for the election of Deputy Mayor Elect for the 2016/2017 Municipal Year.

The name of Councillor Derek Hainge was proposed and seconded.

There were no other names proposed.

RESOLVED: unanimously that Councillor Hainge, proposed by Councillor Mrs J Forsyth and seconded by Councillor Dewi Williams, be elected Deputy Mayor Elect for the 2015/2016 Municipal Year.

212/15 MENAI COLLEGE COUNCIL

Members considered the request from Coleg Menai for the appointment of a Council representative to sit on Coleg Menai Council.

RESOLVED that Councillor Mair Rowlands be appointed as the City Council Representative on Coleg Menai Council.

213/15 INVOICES FOR PAYMENT

RESOLVED that the Invoices as detailed on the schedule covering Voucher Nos. 166/15 to 180/15 totalling £30,394.24 were passed for payment

214/15 SIGNING OF DOCUMENTS

RESOLVED that authority be given for the signing of documents on the City Council's behalf pertinent to open decisions of the Council taken at this Meeting.

The Meeting finished at 7.00 p.m

MAYOR

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, Nos Lun 14eg o Fawrth 2016 am 6.30 y.h.

PRESENNOL :-	Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd D Williams			
	Y Cynghorwyr	S Ashworth	Mrs J Marshall	
		Mrs L Day	John Wynn Jones K Marshall	
		Mrs J Forsyth	C King	M Martin
		D Hainge	D Llewelyn	N Pickavance
		D Madge	Mair Rowlands	G O Roberts
	Swyddog :-	Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid		

204/15 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ei Theilyngdod y Maer, y Cynghorydd Mrs E Butler a'r Cynghorwyr M Shultan (salwch) ac E H Williams (salwch).

205/15 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

206/15 CYHOEDDIADAU

Adroddodd Clerc y Dref fod y Cynghorydd Muhammed Shultan yn dal yn yr ysbyty a'i fod yn debygol o fod allan o bethau am sawl wythnos. Hysbysodd y Cyngor fod cerdyn yn dymuno gwellhad buan iddo wedi'i anfon i'w gartref. Dywedodd y Cynghorydd Doug Madge ei fod wedi bod yn gweld y Cynghorydd Shultan a'i fod yn cadw mewn cysylltiad ag ef.

Cyhoeddodd Clerc y Dref ei fod wedi pasio lefel mynediad yr Arholiad Cymraeg i Oedolion o dan Gynllun CBAC gyda marc o 79%. Llongyfarchodd y Cynghorwyr ef ar ei lwyddiant.

207/15 ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR STAFFIO

Roedd Clerc y Dref eisoes wedi dosbarthu nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2016 o dan y pwyntiau canlynol.

- **Swyddog Prosiect** - y swydd i'w gwneud yn un barhaol; angen cytuno ar y swydd ddisgrifiad a manyleb y person a sefydlu graddfa fynegiannol gan ddefnyddio corff allanol sydd â phrofiad o raddfeydd Llywodraeth Leol;
- **Swyddi Llafur Dros Dro** – y rhain i gael eu hysbysebu ar y Cyflog Byw Cenedlaethol. Clerc y Dref i dynnu rhestr fer a'r Panel Staffio i gyfnewid ddechrau mis Ebrill;
- **Patrymau gwaith 2015** – Clerc y Dref i ganfod beth oedd patrymau gwaith y staff llafuriol yn ystod 2015, yn enwedig yn ystod cyfnod prysur yr haf o ganlyniad i'r ffaith na phenodwyd gweithwyr tymhorol dros dro.
- **Y Drefn Ddisgyblu** – nodwyd fod hon wedi cael ei mabwysiadu gan y Panel Staffio;
- **Cariwr y Mes** – Argymhellwyd codi'r lwfans o £150 i £200 y flwyddyn a dosbarthu'r manylion ymhellach er mwyn annog ymgeiswyr i ddangos diddordeb.

PENDERFYNWYD fod argymhellion y Panel Staffio'n cael eu mabwysiadu a bod Clerc y Dref yn sicrhau fod y gweithredu angenrheidiol yn digwydd.

208/15 COFNODION Y CYNGOR

a) 11^{eg} o Ionawr 2016

PENDERFYNWYD : derbyn a chadarnhau fel rhai cywir Cofnodion Cyfarfod y Cyngor uchod a'u harwyddo gan y Maer.

b) 8^{fed} o Chwefror 2016

PENDERFYNWYD : derbyn a chadarnhau fel rhai cywir Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor uchod a'u harwyddo gan y Maer.

209/15 COFNODION PWYLLGORAU

a) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau – 11eg o Ionawr 2016

PENDERFYNWYD : cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod uchod fel rhai cywir.

b) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau – 1af o Chwefror 2016

PENDERFYNWYD : cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod uchod fel rhai cywir.

c) Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol – 1af o Chwefror 2016

PENDERFYNWYD : cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod uchod fel rhai cywir.

d) Pwyllgor Arbennig Cyllid ac Amcanion Cyffredinol – 8^{fed} o Chwefror 2016

PENDERFYNWYD : cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod uchod fel rhai cywir.

e) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau – 22 Chwefror 2016

PENDERFYNWYD : cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod uchod fel rhai cywir.

210/15 ETHOL MAER ETHOLEDIG

Gwahoddwyd enwebiadau i ethol Maer Etholedig am y Flwyddyn Fwrdeistrefol 2016/2017 gan y Maer.

Cynigiwyd ac eiliwyd enw'r Cynghorydd Dewi Williams.

Ni roddwyd unrhyw enw arall ymlaen.

PENDERFYNWYD: yn unfrydol ethol y Cynghorydd Dewi Williams, a gynigwyd gan y Cynghorydd D Madge ac a eiliwyd gan y Cynghorydd John Wynn Jones, yn Faer Etholedig am y Flwyddyn Fwrdeistrefol 2016/2017.

211/15 ETHOL DIRPRWY FAER ETHOLEDIG

Gwahoddwyd enwebiadau i ethol Dirprwy Faer Etholedig am y Flwyddyn Fwrdeistrefol 2016/2017 gan y Maer.

Cynigiwyd ac eiliwyd enw'r Cynghorydd Derek Hainge.

Ni roddwyd unrhyw enw arall ymlaen.

PENDERFYNWYD: yn unfrydol ethol y Cynghorydd Hainge, a gynigwyd gan y Cynghorydd Mrs J Forsyth ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Dewi Williams, fel Dirprwy Faer Etholedig am y Flwyddyn Fwrdeistrefol 2015/2016.

212/15 CYNGOR COLEG MENAI

Ystyriodd yr Aelodau y cais gan Goleg Menai i benodi cynrychiolydd o'r Cyngor i eistedd ar Gyngor Coleg Menai.

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Mair Rowlands fel Cynrychiolydd Cyngor y Ddinas ar Gyngor Coleg Menai.

213/15 ANFONEBAU I'W TALU

PENDERFYNWYD derbyn a chaniatáu talu'r anfonebau fel eu ceir yn y Rhestr, yn cynnwys Talebau Rhif 166/15 – 180/15 yn rhoi cyfanswm o £30,394.24.

214/15 LLOFNODI DOGFENNAU

PENDERFYNWYD : rhoi hawl i lofnodi ar ran Cyngor y Ddinas y dogfennau perthnasol i benderfyniadau'r Cyngor a wnaed yn y cyfarfod hwn.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.00 y.h.

MAER